Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales




Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, Data a Gofynion Tystiolaeth

## Cronfa Gymdeithasol Ewrop Blaenoriaeth 6: Cynnwys Covid drwy Ddiffiniadau Dangosyddion Capasiti

Fersiwn: 1.0 Medi 2023

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales
UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys

**Cyffredinol**....................................................................................2
Blaenoriaeth Echel 6 Cynnwys Covid trwy Gapasiti ...............................3
Amcanion Penodol.............................................................................3
SO1 – Gwella capaisit y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i Covid-19 ............................................................................................3
Allbynnau..........................................................................................4
Gwerth offer amddiffynnol personol a brynwyd........**Error! Bookmark not defined.**
Eitemau o gyfarpar diogelu personol .......................**Error! Bookmark not defined.**
Staff iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol a gafodd eu recriwtio………………7
Canlyniadau……………………………………………………………………………….8
Endidau sy'n cael eu cefnogi i frwydro yn erbyn COVID-19……………………………8
Rheoli Ferisynau………………………………………………………………………… 9

## Cyffredinol

Dylai'r Cynllun Busnes amlinellu'r grŵp targed, y math o weithgareddau i'w cynnal a sut maent yn cyfrannu at allbynnau a chanlyniadau pob Amcan Penodol (SO).

Dylid cytuno ar fanylion y dystiolaeth sydd i'w chasglu gyda WEFO a'u nodi yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso.

### Data Monitro

Bydd angen darparu data i gefnogi hawliadau.

Dylai buddiolwyr gasglu data monitro ychwanegol i alluogi gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y gwaith.

Dylid llwytho'r data drwy WEFO ar-lein fel rhan o'r broses hawlio.

## Echel Blaenoriaeth 6 Cynnwys Covid trwy Gapasiti

## Amcanion Penodol

**SO1:** Gwella gallu'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i bandemig Covid-19.

**SO1 - Gwella gallu'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i bandemig Covid-19.**

| | Targed WWV | Target EW |
|---|---|---|
| **Allbynnau** | | |
| Gwerth offer amddiffynnol personol a brynwyd | €39m | €30m |
| Eitemau cyfarpar diogelu personol | 36m eitem | 27m eitem |
| Staff iechyd neu ofal cymdeithasol ychwanegol wedi’u recriwtio | 2,400 | 1,800 |
| **Canlyniadau** | | |
| Endidau a gefnogir wrth frwydro yn erbyn COVID-19 | 7 | 6 |

## Allbynnau

### Gwerth cyfarpar diogelu personol a brynwyd

Gwerth yr offer diogelu personol (PPE) a brynwyd y cyfeirir ato yn y dangosydd 'Eitemau offer amddiffynnol personol (PPE)'.

Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cynnwys ystod eang o eitemau, gan gynnwys menig, ffedogau neu ynau, amddiffyn llygaid, masgiau wyneb, ac ati.

Gall 'endidau â chymorth' gynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus (byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd), cyrff anllywodraethol a'r sector preifat.

*Tystiolaeth awgrymedig:*

Contractau caffael, cofnodion sy'n dangos derbyn PPE gan endidau â chymorth. Pan nad yw cofnodion sy'n dangos derbyn PPE gan endidau â chymorth ar gael oherwydd bod y PPE wedi'i storio neu ei gartrefu'n ganolog, gellir defnyddio methodoleg dosrannu i adrodd ar y data ar lefel Rhaglen.

**Eitemau o gyfarpar diogelu personol (PPE)**

Nifer yr eitemau unigol o gyfarpar diogelu personol (PPE) a brynir drwy gyllid ESF i'w defnyddio gan staff iechyd a gofal cymdeithasol mewn endidau a gefnogir.

Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cynnwys ystod eang o eitemau, gan gynnwys menig, ffedogau neu ynau, amddiffyn llygaid, masgiau wyneb, ac ati.

Gall 'endidau â chymorth' gynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus (byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd), cyrff anllywodraethol a'r sector preifat.

*Tystiolaeth awgrymedig:*

Contractau caffael, cofnodion sy'n dangos derbyn PPE gan endidau â chymorth. Pan nad yw cofnodion sy'n dangos derbyn PPE gan endidau â chymorth ar gael oherwydd bod y PPE wedi'i storio neu ei gartrefu'n ganolog, gellir defnyddio methodoleg dosrannu i adrodd ar y data ar lefel Rhaglen.

**Staff iechyd neu ofal cymdeithasol ychwanegol wedi'u recriwtio**

Nifer staff y sector iechyd neu ofal cymdeithasol a recriwtiwyd i helpu i ehangu capasiti endidau â chymorth, er mwyn delio â nifer cynyddol o gleifion sydd angen triniaeth ac osgoi gwasanaethau rhag cael eu llethu, o ganlyniad i Covid-19.

Gall staff a recriwtiwyd gynnwys personél sydd wedi ymddeol yn ddiweddar neu'r rhai sydd wedi gadael y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol ond yr ailgysylltwyd â hwy i ddychwelyd i wasanaeth dros dro; myfyrwyr o ysgolion meddygol neu sefydliadau hyfforddi perthnasol eraill sydd wedi eu recriwtio i'r gwasanaeth yn gynt neu eu cyflymu; ac/neu staff eraill sy'n cael eu recriwtio i lenwi rolau dros dro sy'n ofynnol mewn ymateb i Covid-19.

Gall 'endidau â chymorth' gynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus (byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd), cyrff anllywodraethol a'r sector preifat.

*Tystiolaeth awgrymedig*

Cofnodion Adnoddau Dynol sy'n dangos bod staff a recriwtiwyd wedi'u hariannu trwy Gronfeydd ESF.

## Canlyniadau

### Endidau a gefnogir i frwydro yn erbyn COVID-19

Nifer yr endidau a gefnogir i ymateb i bandemig Covid-19, drwy recriwtio staff ychwanegol a/neu brynu cyfarpar diogelu personol (PPE).

Gall 'endidau â chymorth' gynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus (byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd), cyrff anllywodraethol a'r sector preifat.

*Gofynion data*

Dylai cofnod o enw pob endid a gefnogir, y dyddiad y derbyniodd yr endid gefnogaeth gyntaf a'r dyddiad olaf y derbyniodd yr endid gefnogaeth gael ei gadw gan y Gwaith. Efallai mai'r dyddiad y derbyniwyd y cymorth gyntaf yw'r dyddiad y cafodd staff ychwanegol a recriwtiwyd, trwy gyllid ESF, i helpu i gefnogi'r ymateb i Covid-19 eu defnyddio gyntaf yn yr endid a gefnogir, neu y dyddiad y cafodd PPE, trwy gyllid ESF, ei ddosbarthu gyntaf i'r endid a gefnogir, pa bynnag ddyddiad oedd gyntaf.


*Tystiolaeth awgrymedig*

Cofnodion o ddefnyddio staff a/neu gofnodion o PPE wedi'u dosbarthu i'r endid perthnasol.

**Rheoli Fersiwn**

Fersiwn 1.0 wedi'i gyhoeddi - Medi 2023






**Am ragor o wybodaeth:**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

**Desg Gymorth ymholiadau 0845 010 3355**

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government